Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
South Wales Police and Crime Commissioner

DIWEDDARIAD CHWARTEROL AM ICVS


CHWARTER 2: GORFFENNAF–MEDI 2026

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ac ymweliadau gan Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVs) rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2026. Os hoffech ragor o wybodaeth am y cynllun neu os hoffech ddarganfod sut i ddod yn ICV, e-bostiwch volunteer@south-wales.police.uk

Ffigurau Chwarter 2

15 o ymweliadau gan ICVs	**148** o garcharorion yn y ddalfa ar adeg ymweliadau'r ICVs	**38** o ymweliadau â charcharorion	**90** o garcharorion yr arsylwyd arnynt	**1** carcharor yn gwrthod ymweliad	**109** o wirfoddolwyr nad oeddent ar gael	**12** o wirfoddolwyr gweithredol	**4** o ICVs newydd wedi'u hyfforddi a'u cynefino


Ymweliadau fesul dalfa



Cynhaliwyd ymweliadau ym mhob un o'r pedair dalfa yn ystod y chwarter. Yn sgil recriwtio tri ICV newydd i Banel y Dwyrain, mae capasiti ar gyfer ymweliadau wedi cynyddu a disgwylir y bydd hynny'n ategu ymweliadau amlach a chraffu annibynnol gwell yng Nghaerdydd a Merthyr yn y chwarter nesaf.

Diwrnodau'r Ymweliadau

Mae'r siart isod yn amlinellu pa ddiwrnod o'r wythnos y cynhaliwyd ymweliadau.



Cwblhaodd ICVs ymweliadau ar bob diwrnod o'r wythnos yn ystod y chwarter, gan gynnwys nifer uwch o ymweliadau dros y penwythnos.

Mynediad i Ddalfeydd

Mae'r dabl ganlynol yn amlinellu'r amser a gymerwyd i ICVs gael mynediad i ddalfeydd ar ôl cysylltu â nhw.

Mynediad ar unwaith 1-5 munud	Mynediad wedi'i oedi am 6-15 munud	Mynediad wedi'i oedi am 16+ munud
11 ymweliad	2 ymweliad	2 ymweliad

Bu oedi am fwy na 30 munud i ddau ymweliad yn ystod y chwarter. O ganlyniad i oedi wrth gael mynediad, mae pob ICV bellach wedi cael manylion cyswllt yr Arolygydd perthnasol a bydd yn uwchgyfeirio unrhyw achos o oedi sy'n para mwy na 10 munud. Ar ddau achlysur, asesodd ICVs fod lefel y galw ar staff y ddalfa yn ei gwneud hi'n anymarferol parhau â'r ymweliad a chafodd yr ymweliadau eu byrhau neu eu terfynu.

Amseroedd Ymweliadau

Mae'r siart isod yn amlinellu pa ddiwrnod o'r wythnos y cynhaliwyd ymweliadau.

Amser y Dydd	Nifer yr Ymweliadau
00:00-03:59	0
04:00-07:59	0
08:00-11:59	7
12:00-15:59	5
16:00-19:59	3
20:00-23:59	0

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
South Wales Police and Crime Commissioner

DIWEDDARIAD CHWARTEROL AM ICVS

CHWARTER 2: GORFFENNAF–MEDI 2026

Ymweliadau - Canfyddiadau ac Effaith

Staff Croesawgar a Phroffesiynol yn y Ddalfa

✓ Croesawgar, cymwynasgar a phroffesiynol oedd y disgrifiadau cyson ar gyfer Swyddogion Dalfeydd yn ystod ymweliadau. Nododd un ICV “nad oedd unrhyw beth yn ormod o drafferth" i un Swyddog penodol.

✓ Mae adborth cadarnhaol o ymweliadau wedi'i rannu â staff y ddalfa a'r rheolwyr.

Monitro'r Pwysau ar Staffio

Mae adroddiadau o heriau o ran lefelau staffio drwy gydol y cyfnod oherwydd salwch staff yn cael eu monitro. Disgwylir y bydd recriwtio Swyddogion newydd a hyfforddiant ychwanegol ynghylch dalfeydd ar gyfer Cwnstabliaid yr Heddlu yn cryfhau gwydnwch staffio ar draws dalfeydd.

Eitemau Crefyddol a Storio

Nodwyd pryderon ynghylch argaeledd, cyflwr a storio testunau crefyddol. Mae Beiblau newydd wedi'u harchebu ar gyfer pob dalfa, a bydd ICVs yn canolbwyntio ar y maes hwn yn ystod ymweliadau yn y chwarter nesaf.

Proses archebu yn cael ei hadolygu

Nodwyd peth oedi i ddosbarthiadau bwyd yn ystod y chwarter. Mae adolygiad o'r broses archebu ar y gweill i wella'r gwasanaeth.

Llesiant Carcharorion Diabetig

✓ Gwnaeth ICVs arolygu cofnodion dalfeydd a threfniadau gofal iechyd lle nodwyd y ceir carcharorion diabetig a chanfod bod anghenion meddygol wedi'u diwallu. Er mwyn ategu craffu yn y dyfodol, cafodd ICVs nodyn briffio gan yr ICVA ynghylch carcharorion diabetig, eu hanghenion posibl yn y ddalfa, ac ystyriaethau allweddol ynghylch llesiant.

Ystadau

✓ Ymdriniwyd â materion ystadau a godwyd yn ystod ymweliadau mewn modd prydlon, ac mae prosesau gwell wedi helpu i ddatrys pryderon cynnal a chadw yn gyflymach.

Cododd ICVs bryderon am broblem carthffosiaeth yn nalfa Abertawe a oedd yn gysylltiedig â'r tywydd, a effeithiodd dros dro ar gapasiti’r ddalfa. Er bod yr adain wedi ailagor, mae'r gwaith atgyweirio yn parhau ac mae'r mater yn cael ei fonitro.

Diweddariadau am y Cynllun

- Aeth Rheolwyr y Cynllun ICVs i gynhadledd flynyddol yr ICVA a chawsant y Wobr Arian fel rhan o'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd.
- Cyflwynwyd proses sganio ar gyfer ffurflenni adrodd yn uniongyrchol o'r ddalfa i Reolwyr y Cynllun. Hyfforddwyd a sefydlwyd 4 ICV newydd.
- Cynhaliwyd cyfarfod chwarterol y panel ym mis Medi gydag ICVs a rheolwyr dalfeydd.



Edrych Ymlaen- Chwarter 3 (Hydref-Rhagfyr)

- **Cynefino ICVs newydd a darparu hyfforddiant sefydlu ar eu cyfer**
- **Darparu hyfforddiant ynghylch ICVs i Swyddogion a Rhingylliad newydd yn y Ddalfa**
- **Bydd ICVs yn canolbwyntio ar eitemau crefyddol a storio'n gywir yn ystod ymweliadau**
- **Cynyddu nifer yr ymweliadau â dalfeydd Merthyr a Chaerdydd**
- **Archwilio ffyrdd amgen i ICVs gyfathrebu â charcharorion nad ydynt yn siarad Saesneg**
- **Pob ICV i gwblhau cwrs hyfforddiant Gwrth-hiliaeth yr ICVA**